

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Nofelau dosbarth:

**Cymraeg** Dwi'n cofio'r diwrnod y daeth y teledu cyntaf i'r Rhiw.

**Saesneg** The Iron Man

Bydd y plant yn gael cyfle i ysgrifennu llythyr, ebost, portread a sgript yn ystod y tymor yma i gyd yn seiliedig ar ddigwyddiadau o'r nofelau.

Yr hyn sy'n bwysig (o'r Cwricwlwm i Gymru)  
"Mae Llenyddiaeth yn tanio'r dychymygydd ac yn ysbrydoli creadigrwydd."

## Iechyd a Lles

Byddwn yn parhau gyda gemau goresgyn tymor yma megis criced a phêl fased.

Bydd y plant hefyd yn paratoi at y mabolgampau drwy ymarferion athletau fel ras rhedeg, naid hir, taflu ayyb.

Pêl droed gyda Gethin o glwb Bala pob  
**Dydd Llun.**

Ymarfer corf ar **Ddydd Mercher.**

Nofio ar **Ddydd Mawrth.**

Ddoe, heddiw ac yfory  
Past, present and future

CA2

Mr Llion Jones

Mynydd Grug

Haf 2022

## Y Dyniaethau

**Hanes** - Bydd y ffocws tymor yma ar ddyfeisiadau a dyfeiswyr allweddol dros hanes megis camerau, teledu, trydan, ceir, peiriant golchi dillad ayyb. Byddwn yn edrych ar yr effaith mae'r dyfeisiadau yma wedi gael ar bobl a sut maent wedi newid dros amser.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar gyfnod y Celtiaid.

**Llais y plentyn** - Mae'r plant wedi trafod llawer o bethau difyr y byddent yn mwynhau dysgu amdano tymor yma. Rhai o'u syniadau oedd: I ddyfalu beth fyddai'r dyfodol? Byddai pobl yn byw ar y blaned Mawrth? Sut mae Pokemon wedi newid dros y blynyddoedd? Ffermio ddoe a heddiw, a sut mae diwylliant 'Fast food' wedi newid dros y blynyddoedd.

## Celfyddydau mynegianol

**Celf** - Byddwn yn edrych ar waith Banksy ac arlunwyr eraill sydd hefo steil dyfodolaidd.

**Cerdd** - Byddwn yn edrych ar ac yn perfformio fel y 'Blue man group'.

## Mathemateg a rhifedd

Bydd ffocws y tymor yma ar Mesur hyd, lled, pwysau, tymheredd a dweud yr amser. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar waith data a sut i ddarllen, dehongli a creu data.

Mathletics un waith yr wythnos i atgyfnerthu dealltwriaeth.

Mathemateg pen: Dilyn llyfr Mental Maths (Ymarferion 10 munud pob bore).

Mathemateg yn drawsgwricwlaidd: Bydd yna gyfleoedd i ddefnyddio gwaith data mewn pynciau fel Gwyddoniaeth a thechnoleg tymor yma.

## Gwyddoniaeth a thechnoleg

**Gwyddoniaeth** - Bydd ffocws y tymor yma ar drydan. Bydd y plant yn gael cyfle i greu cylchedau trydan eu hunain. Byddem hefyd yn edrych ar sut i fod yn ddiogel o gwmpas trydan. Caiff y plant gyfle i ddysgu am ffigyrau hanesyddol ac allweddol trydan megis Thomas Edison.

**TGCh** - Bydd y plant yn gael cyfleoedd i godio, creu cyflwyniadau a recordio yn defnyddio amryw o dechnoleg megis y chromebooks ag Ipads.